| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **3 MAWRTH, 2016** |
| **TEITL** | **POLISI IAITH AR GYFER CYNGOR GWYNEDD** |
| **PWRPAS** | **(a) Sefydlu bod Polisi Iaith y Cyngor yn rhan o'r fframwaith bolisi y dylai gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn**<br>**(b) Mabwysiadau Polisi Iaith i'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |

1. Ar hyn o bryd, mae ymrwymiadau statudol y Cyngor o ran yr Iaith Gymraeg wedi eu crynhoi yng Nghynllun Iaith statudol y Cyngor ond mae'r drefn o gynlluniau iaith statudol yn dod i ben gyda chyflwyno'r Safonau Iaith newydd o 1 Ebrill, 2016 ymlaen. O hynny ymlaen, byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y Safonau Iaith, yn hytrach nag ar gynllun iaith.

2. Gan fod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â'r mwyafrif o'r Safonau, ni ragwelwyd problem enfawr, er bod rhai goblygiadau gweinyddol wrth gofnodi manylion yng nghyswllt rhai o'r Safonau. Yn eu hanfod yr hyn a wna'r Safonau yw gosod isafswm ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a'r gwirionedd yw fod yr isafswm a osodir yn rhy isel i gyfarch uchelgais Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Iaith Gymraeg mewn sawl un o'r meysydd. Pwysleisiwyd sawl tro wrth drafod y Safonau drafft nad oedd dymuniad iddynt wanhau sefyllfa bresennol y Cyngor.

3. Felly, daethpwyd i'r casgliad bod angen dogfen sydd yn fwy na dim ond polisi mewnol, ac a fydd yn cyfarch uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg drwy ein gwasanaethau i gyd. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn addasiad a diweddariad o'r hen Gynllun Iaith sydd wedi ei drafod gyda'r Pwyllgor Iaith. Cwblhawyd Asesiad Cydraddoldeb o'r ddogfen bolisi a ni welwyd unrhyw faterion o bryder y mae'n rhaid eu cyfarch. Mae copi o'r asesiad ar gael os yw aelod yn dymuno ei dderbyn.

4. O dan y Cyfansoddiad, roedd y Cynllun Iaith yn rhan o'r Fframwaith Bolisi a oedd yn gorfod cael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Fodd bynnag, derbyniwyd cyngor cyfreithiol nad dyna'r sefyllfa gyda'r Polisi Iaith. Awgrymir, fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd y polisi hwn i amcanion strategol y Cyngor y dylai'r Polisi Iaith gael ei gynnwys yn y Fframwaith Bolisi y dylid ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

5. Argymhellir i'r Cyngor llawn:-

(a) Y dylid ychwanegu'r Polisi Iaith at y rhestr o bolisiau sydd o fewn y Fframwaith Bolisi i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn
(b) Mabwysiadu'r polisi sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn fel Polisi Iaith Cyngor Gwynedd